Fframwaith
Ymgynghorwyr
Addysg Chwaraeon
Cymru

# Ymateb Ansawdd

20FED Mai 2026

# Templed Ymateb Ansawdd

## 1. Cyfarwyddyd

1.1 Yn unol â Rhan 18 o'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro, mae'n ofynnol i dendrwyr gwblhau a dychwelyd templed ymateb Ansawdd fel rhan o'u hymateb i'r tendr.

1.2 Dim ond ymatebion a ddarperir gan ddefnyddio'r templed ymateb Ansawdd a dderbynnir i'w gwerthuso.

1.3 Rhaid i dendrwyr ystyried a rhoi sylw dyledus i'r Cyfarwyddyd Pellach a ddarperir yn Rhan 19 o'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro wrth gwblhau eu hymateb Ansawdd.

1.4 Lle mae unrhyw gyfyngiadau ar hyd eich atebion, bydd hyn yn cael ei amlygu'n glir (e.e. x tudalen A4). Os yw unrhyw ateb yn fwy na'r hyd mwyaf a nodwyd, dim ond y wybodaeth a ddarperir hyd at yr hyd mwyaf fydd yn cael ei hystyried a'i gwerthuso (ni fydd gwybodaeth a ddarperir sy'n fwy na'r hyd mwyaf a nodwyd yn cael ei hystyried i'w gwerthuso).

1.5 Rhaid darparu'r ymateb i bob cwestiwn gan ddefnyddio **ffont Montserrat 11 pwynt.**

1.6 Yn unol â Rhan 17 o'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro (Crynodeb Asesu), bydd yr asesiad Ansawdd yn cyfrif am 80% o'r 100% sydd ar gael. Cynhelir yr asesiad Ansawdd gan ddilyn y fethodoleg sgorio a ddarperir yn Atodiad 1 o'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro.

## 2. Meini Prawf Dyfarnu Ansawdd: Templed Ymateb

| C1 *Manylwch ar brofiad diweddar eich sefydliad (yn ystod y 3 blynedd diwethaf) o ddarparu gwasanaethau sy'n cyfateb i neu'n debyg i'r rhai a amlinellir yn y gofyniad.* Cynhwyswch enghreifftiau o waith o fewn addysg, Addysg Gorfforol, chwaraeon ysgol, gweithgarwch corfforol, dysgu proffesiynol a / neu ddulliau ysgol gyfan o weithredu gyda gweithgarwch corfforol. | **Pwysoli** | **Cyfyngiad Tudalen** |
|---|---|---|
| | 20% | 2 Dudalen A4 |
| [Y tendrwr i ddarparu ymateb yma] | | |

| C2 Darparwch gynnig manwl sy'n dangos sut bydd eich sefydliad yn darparu'r gwasanaethau gofynnol i Chwaraeon Cymru. Dylai eich ymateb gynnwys eich dull o gefnogi ysgolion, ymarferyddion a phartneriaid i wella ansawdd, cynhwysiant a chysondeb cyfleoedd Addysg Gorfforol, chwaraeon ysgol a gweithgarwch corfforol ledled Cymru. Dylai'r ymatebion ddangos dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, ochr yn ochr â phrofiad o gefnogi dulliau ysgol gyfan o weithredu gyda gweithgarwch corfforol a lles. Cofiwch hefyd gynnwys eich dull o gydweithredu, ymgysylltu â rhanddeiliaid, dysgu proffesiynol a chefnogi profiadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. | **Pwysoli** | **Cyfyngiad Tudalen** |
|---|---|---|
| | 20% | 2 Dudalen A4 |
| [Y tendrwr i ddarparu ymateb yma] | | |

| C3 Amlinellwch brofiad eich sefydliad o ddatblygu, adolygu neu gyflwyno dysgu proffesiynol, cyfarwyddyd, adnoddau a / neu gynnwys digidol sy'n cyd-fynd â’r Cwricwlwm i Gymru a’r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Cofiwch gynnwys unrhyw brofiad perthnasol o gyflwyno dwyieithog neu gefnogi platfformau fel CITBAG. | **Pwysoli** | **Cyfyngiad Tudalen** |
|---|---|---|
| | 20% | 2 Dudalen A4 |
| [Y tendrwr i ddarparu ymateb yma] | | |

| C4 Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael profiadau cadarnhaol, ystyrlon a chynhwysol o Addysg Gorfforol, chwaraeon ysgol a gweithgarwch corfforol. Amlinellwch y camau y mae eich sefydliad yn eu cymryd i hyrwyddo arfer cynhwysol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chefnogi cyfleoedd teg drwy eich gwaith gydag ysgolion, ymarferyddion a phartneriaid. | **Pwysoli** | **Cyfyngiad Tudalen** |
|---|---|---|
| | 20% | 2 Dudalen A4 |
| [Y tendrwr i ddarparu ymateb yma] | | |